Y Deg Gorchymyn – Mererid Hopwood

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
cagŵl	math o got law ysgafn
sachell	bag ysgol traddodiadol
sodlau	‘sawdl’ yw’r gair am ran gefn y droed, ‘sodlau’ yw’r lluosog; yn y gerdd mae’n cael ei ddefnyddio i olygu sgidiau â sodlau uchel (*heels*)
fathodynnau (bathodynnau)	mwy nag un bathodyn
llwyth	llawer iawn

Ar lan yr afon – Tudur Dylan Jones

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
hiraeth	y tristwch sy'n dod wrth gofio yr hyn a gollwyd, a'r dyhead wedyn i'w gael yn ôl

Tro Gwael – Gwennan Evans

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
West Ham	West Ham United, tîm pêl-droed enwog o Lundain
albwm sticeri	llyfr sydd â thudalennau gwag lle y gellwch ludo sticeri o chwaraewyr enwog
diwyd	gweithgar, prysur, yn barod i ddal ati
dyrnu	taro, bwrw
talcen y tŷ	wal ochr y tŷ
magu	gofalu amdani, cofleidio
gôl	gôl bêl-droed
côl	cofl, arffed (*lap*)

Nyth – Roger Jones

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
saer	crefftwr neu grefftwraig sy'n trin pren
mesuriad	hyd, lled neu uchder wedi ei ddarganfod drwy fesur (*measurements*)
graen	ôl gallu, sglein (*polish*)
crefft	gwaith llaw sy'n gofyn am sgiliau arbenigol a medrus
trwsiad	gwaith trwsio, gwaith atgyweirio
caniatâd	rhoi hawl i rywun wneud rhywbeth (*permission*), e.e. mae'n rhaid i ni gael *caniatâd cynllunio* cyn codi tŷ yn y wlad hon

Grisiau – Mari George

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
Brexit	Mewn refferendwm a gynhaliwyd ar Fehefin 23ain, 2016, pleidleisiodd 51.9% o boblogaeth y Deyrnas Unedig dros adael yr Undeb Ewropeaidd
ebychiad	mynegiant byr o syndod neu o deimlad cryf (*exclamation*)
ewin	y darn caled ar flaen bys (*fingernail*)